**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/CS/1070/14

At:

Aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am Gynllunio

CC Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Cynllunio

mewn awdurdodau lleol

10 Ebrill 2014

Annwyl Gyfeillion

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch atgoffa am bolisi a disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â defnyddio amcanestyniadau aelwydydd yn y system gynllunio. Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru set newydd o amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Cymru, a oedd yn seiliedig ar gyfrifiad 2011. Mae'r rhagdybiaethau sydd wrth wraidd yr amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol agos. Rhaid cofio bod yr amodau economaidd a welwyd yn y gorffennol agos yn sgil yr argyfwng economaidd byd-eang wedi effeithio'n fawr ar y tueddiadau hynny. O'r herwydd, gallent arwain at amcanestyniadau is o aelwydydd ac at aelwydydd mwy o faint nag mewn amcanestyniadau blaenorol; mae'n bwysig eich bod yn cadw hyn mewn cof wrth ddefnyddio'r amcanestyniadau at ddibenion cynllunio.

Mae'n polisi ar sut i ddefnyddio amcanestyniadau wrth gynllunio ar gyfer cartrefi newydd i'w weld yn y ddogfen Polisi Cynllunio Cymru (PCC), sydd hefyd yn nodi'n glir mai amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar lefel awdurdodau lleol yw'r **man cychwyn** ar gyfer asesu anghenion o ran tai, ac nad ydynt, felly, yn nod ynddynt eu hunain. Mae PCC yn nodi'n glir y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried pa mor briodol yw'r amcanestyniadau ar gyfer eu hardaloedd nhw, a hynny ar sail yr holl ffynonellau tystiolaeth leol sydd ar gael.

Mae'n ofynnol, o dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, i'r awdurdodau lleol lunio Cynlluniau Datblygu Lleol cadarn, ac mae sicrhau bod y Cynlluniau hynny'n rhai cydlynol a chyson yn rhan annatod o hynny. Mae'n hanfodol bod polisïau a dyraniadau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn seiliedig ar dystiolaeth a'u bod yn cefnogi'r strategaeth sydd yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

y Cynllun. Er enghraifft, os yw'r Cynllun yn amlinellu dyheadau o ran adfywio neu o ran yr economi, rhaid ystyried y lefelau cysylltiedig o dai er mwyn darparu ar gyfer y dyheadau hynny. Dylai'r Cynllun adlewyrchu pob agwedd ar y sylfaen dystiolaeth, ac ni fyddai'n ddoeth i Gynllun sy'n edrych ar gyfnod 15-20 mlynedd i'r dyfodol adlewyrchu cyfnod eithriadol o wael o ran perfformiad economaidd. Bydd hynny, gan amlaf, yn golygu bod angen edrych ar nifer y tai, gan ddefnyddio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru fel man cychwyn.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuon yn y dyfodol, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, wrth iddynt geisio darparu ar gyfer faint o dai y bydd eu hangen, ddadansoddi'r holl ffynonellau tystiolaeth perthnasol yn gyntaf, yn hytrach na dibynnu'n unig ar amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at yr Arolygiaeth Gynllunio a byddaf yn disgwyl i'r dystiolaeth berthnasol gael ei hystyried cyn cytuno ar nifer y tai yn ystod Archwiliadau o Gynlluniau Datblygu Lleol.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration